# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

12/01/2026

**Presennol:** Gwyn Roberts (Cadeirydd), Eleri Jones (is-Gadeirydd), , Emyr Jones, Tyly Roberts,

Cynghorydd Gwynedd: Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** D Clwyd Davies Geraint Roberts, W D Williams

1. **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant**: Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion Tachwedd 10, 2025 –** derbyniwyd fel rhai cywir.
5. **Materion y Clerc:**
    i. Taliad ico (debyd uniongyrchol): mae'r taliad hwn wedi mynd o'r banc.
    ii. Atgoffwyd Cymdeithasau o'r angen i wneud cais am nawdd cymunedol.
    iii. Cynllun Bioamrywiaeth 2026 -28: cymeradwywyd ar y cynllun a baratowyd gan y Clerc ac a anfonwyd ymlaen i Lywodraeth Cymru.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd am y trafferthion a fu yn ddiweddar i glirio eira o'r ffyrdd croes. Bwriada trafod gyda swyddogion y Cyngor Sir yr angen am gynllun argyfwng lleol ar gyfer adegau pan fo offer y Cyngor wedi eu clymu i glirio'r priffyrdd.
7. **Materion lleol** y Cynghorwyr: Dim
8. **Ariannol:**
    i. Ystyriwyd ceisiadau am y cytundeb 3 mlynedd i dorri gwair y fynwent a chytunwyd i dderbyn cais Sion Jones.
    ii. Adroddiad grant Gwynedd Ni: mae'r grant bron i gyd wedi ei wario; ystyriwyd mesurau diogelwch i'r neuadd a chytunwyd i brynu goleuadau solar (ar ôl deall nad oedd amodau'r grant yn caniatáu gosod camerâu).
    iii. Cyflwynwyd gwybodaeth manwl ar y sefyllfa ariannol bresennol.
        a. Taliadau a gymeradwywyd i'w gwneud: hysbyseb yn Y Cyfnod
        b. Cytunwyd i dalu anfonebau: Gwefan, Costau Swyddfa
        c. Derbyniadau: Cronfa Llesiant Cymunedol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at gynnal y di-ffib sydd yn gwasanaethu'r llyn a'r pentref

d. Taliadau grant Gwynedd Ni. Derbyniwyd gwybodaeth bod Openreach angen trwsio cysylltiad, ac mai hyn yw'r rheswm am yr oedi dros gael y we i'r Neuadd.

9. **Materion ariannol blynyddol**

i. Adolygwyd Rheoliadau Ariannol diwygiedig (yn seiliedig ar fodel Un Llais Cymru).
ii. Derbyniwyd gwybodaeth am wariant Adran 137 (terfyn o £11.60 yr etholwr).
iii. Ystyriwyd asesiad o risgiau ariannol i'r Cyngor.
*iv.* Rhestr Asedau – ni fu newid yn ystod y flwyddyn (*Noder mai eiddo'r gymuned dan adain Pwyllgor y Neuadd Bentref yw'r offer a brynwyd trwy gyfrwng grant Gwynedd Ni.)*
v. Cytunwyd i barhau gyda'r Polisi Yswiriant a adolygwyd ym Mai 2025 ac sydd bellach yn cynnwys y *Fidelity Clause* fel yn y gorffennol.
vi. Derbyniwyd gwybodaeth am y Lwfans (£156) a threuliau (£52) a ganiateir i Gynghorwyr yn 2026-27
vii. Archwiliad 2024-25: derbyniwyd yr Adroddiad Mewnol (Allanol heb gyrraedd).
viii. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel Archwilydd Mewnol 2026-27.
ix. Adolygwyd Cyflog y Clerc a'r treuliau Swyddfa.
x. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol bresennol a'r hyn a ddisgwylir erbyn diwedd Mawrth 2026.
xi. Cytunwyd ar Gyllideb y Cyngor 2026-27 gan gofio am yr angen i gynnal y ddau diffib a thalu am ddarparu'r we i'r Neuadd.
xii. Cytunwyd ar lefel y Praesept 2026-27.

10. **Cynllunio** – ystyriwyd amrywiad i gais NP5/70/1C (estyniad Ty Isaf) a chytunwyd bod y sylwadau a wnaed ar y cais blaenorol yn parhau'n ddilys. Gwrthwynebwyd y cais.

11. **Gohebiaeth:**

i. Ymgynghoriad Fferm Wynt ardal Foel Fach – cytunwyd i'w wrthwynebu oherwydd ei fod yn amharu ar ardal Parc Cenedlaethol Eryri.
ii. Un Llais Cymru: derbyniwyd Cyfarchion, gwybodaeth am hyfforddiant ac am y Pwyllgor Ardal 14/1/26
iii. Elusen y Parchedig Maurice Vaughan: rhoddwyd gwybodaeth am elusendy sydd ar gael i drigolion Llanuwchllyn, Llangywer a Llanycil.
iv. Liz Saville Roberts AS – nodwyd derbyn cais i fynychu digwyddiad cyn-filwyr 7/2/26 yng Nghaernarfon

12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 9/3/25 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref